



Gwasanaeth Carchardai
a Phrawf EM

Cyflwyno'r Model Gweithredu Targed Drafft

Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth
Prawf

Mawrth 2020

Cyflwyno'r Model Gweithredu Targed Drafft

Y model hwn yw'r glasbrint ar gyfer cryfhau'r gwasanaeth prawf – gwasanaeth sy'n cadw'r cyhoedd yn ddiogel drwy arolygu troseddwyr yn effeithiol yn y gymuned, gan ddarparu ffyrdd amgen credadwy i'r ddalfa ar gyfer dedfrydwyr. Mae'n ceisio helpu defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddod o hyd i'r gefnogaeth adsefydlu cywir i ymdrin ag ymddygiad troseddol, tra'n cefnogi dioddefwyr i gael mynediad at gefnogaeth amserol ac effeithiol o ansawdd uchel er mwyn eu helpu nhw i ymdopi, a chyn belled ag yw'n bosibl, cael adferiad o effeithiau trosedd ac ailadeiladu eu bywydau. Mae'r Model Gweithredu Targedau hwn yn ymddangos ar adeg pan mae'r Prif Weinidog wedi gosod diogelwch y cyhoedd a chymunedau diogelach ymysg blaenoriaethau uchaf y Llywodraeth.


Mae'r model hwn wedi'i seilio ar ddwy egwyddor arweiniol. Yr egwyddor gyntaf, yw y bydd ein pobl – ymarferwyr prawf yng ngweithlu'r GPC – yn ganolog er mwyn cyflawni hyn. Drwy roi'r offer a'r gefnogaeth gywir i ymarferwyr prawf, byddwn ni'n eu helpu nhw i asesu risg unigolion, gwarchod y cyhoedd a newid ymddygiad sylfaenol y rhai hynny y maen nhw'n eu goruchwyllo er mwyn torri'r cylch o aildroseddu. Yn ail egwyddor yw, er mwyn cyflawni canlyniadau yr ydym ni'n chwilio amdany'n nhw, rydym ni angen arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar ein cymunedau lleol, sydd wedi gogwyddo tuag at eu hanghenion ac yn gallu galw'r partneriaid cyhoeddus lleol, preifat a'r trydydd sector.


Bydd gwasanaeth cryfach yn gosod y gwasanaeth prawf fel y catalydd ar gyfer gwellhad systemig drwy'r system cyfiawnder troseddol – ein llysoedd, ein carchardai a'n cymunedau – er mwyn:

- ▲ **Asesu'r** rhai hynny sydd wedi cael eu cyhuddo o drosedd, fel bod ein llysoedd yn gallu derbyn cyngor ynglŷn â'r ffactorau sy'n bodoli ac sydd yn aml yn rhai cymhleth mewn amgylchiadau unigolyn. Wrth dderbyn y diagnosis hwn yn gywir, gall y gwasanaeth prawf sicrhau bod yr ymyriadau gorau yn cael eu defnyddio a gall ailgyfeirio'r bobl gywir o garchar drwy gyflawni ffyrdd amgen diogel a hyfyw i'r ddalfa.
- ▲ **Gwarchod** y cyhoedd a dioddefwyr troseddau drwy reoli'r anghenion sy'n newid bob amser a phroffiliau risg unigolion sy'n destun i wasanaethau prawf; gweithio er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni amodau eu dedfryd a bod gweithredu sydyn yn cael ei gymryd pan nad ydyn nhw'n gwneud hynny.
- ▲ **Newid bywydau pobl** drwy gyflawni'r ymyriadau cywir er mwyn cefnogi pobl a darparu'r adsefydlu sydd ei angen er mwyn atal troseddau yn y dyfodol.

Mae'r Llywodraeth yn awr yn sefydlu diwygiadau er mwyn adfywio'r gwasanaeth prawf a sicrhau y gall gyflawni ei wasanaethau hanfodol yn ddibynadwy ynghyd â pharhau i ddatblygu ac arloesi. Bydd parch i sgiliau proffesiynol staff y gwasanaeth a byddan nhw'n cael datblygu eu sgiliau, bydd gweithrediadau yn cael eu symleiddio a bydd yr ystad a'r dechnoleg yn cael eu moderneiddio.

Gydag angen i baratoi ar gyfer mewnwelediadau y mae ein byd cyfoethog o ddata yn ei gynnig, a'r awydd i gynllunio a theilwra





gwasanaethau cyhoeddus yn well ar gyfer y defnyddiwr terfynol, bydd y diwygiadau yn caniatáu'r gwasanaeth prawf i ddatblygu partneriaethau neu gomisiynu gwasanaethau ar y cyd gyda phartneriaid lleol, gan ein galluogi ni i dynnu ar y profiad a'r arloesedd a geir mewn sectorau eraill.

Beth sy'n newid?

Er mwyn dysgu gwersi o orffennol diweddar y gwasanaeth prawf, ac adeiladu ar ei gryfderau hanesyddol, mae holl elfennau o waith y gwasanaeth prawf wedi cael eu hadolygu, gan ymgynghori ynghylch newidiadau posibl gyda'r partneriaid cyflawni, rhanddeiliaid allanol, staff ac arweinyddion proffesiynol.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gosod mewn pump o brif feysydd:


- ▲ **Unoli sut mae dedfrydau yn cael eu rheoli fel bod yr holl unigolion yn cael rheoli eu hachos yn yr un sefydliad, sef y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC).** Mae hyn yn darparu mwy o eglurder ynglŷn â'r cyfrifoldeb dros achosion ac mae'n gwella parhad ar gyfer y rhai hynny sy'n cael eu goruchwylio. Gall staff y gwasanaeth prawf sy'n rheoli'r drwydded ar ôl rhyddhau, neu'r ddedfryd ar ran y llys ganolbwyntio ar hyn a defnyddio ymyriadau neu ffynonellau gwybodaeth eraill.
- ▲ **Creu strwythurau arweinyddiaeth gwasanaeth prawf rhanbarthol newydd sy'n galluogi fwy o atebolrwydd a gosod cyfeiriad lleol.** Rydym yn creu swyddogaeth arweinyddiaeth newydd er mwyn arwain 11 o ranbarthau gwasanaeth prawf newydd yn Lloegr yn ogystal â Chyfarwyddwr yng Nghymru. Mae 12 o'n swyddogaethau Cyfarwyddwyr y Gwasanaeth Prawf Rhanbarthol wedi cael eu creu i roi ymreoliad i uwch reolwyr i ymrwymo adnoddau ochr yn ochr

â gwneuthurwyr penderfyniadau a phartneriaid lleol. Mae'r swyddogaethau rhanbarthol hyn yn darparu arweinyddiaeth weladwy, atebolrwydd ar y lefel gywir ac ymatebolrwydd i graffu neu herio. Maen nhw'n darparu hyder bod y gwasanaeth yn gallu adapt a sbarduno newid cenedlaethol fel y bo angen oherwydd bod newid mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau.

- ▲ **Galluogi partneriaethau i gyflawni gwasanaethau adsefydlu effeithiol.** Byddwn yn comisiynu ac yn cydgomisiynu gwasanaethau arbenigol gan ddarparwyr eraill yn y sectorau masnachol, gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol pan mae eu gwasanaethau nhw yn cynnig fwy o gapasiti, gwell gwerth neu arbenigrwydd ac arloesedd.

Gan fod datganoli wedi gwthio pwerau a gwneud penderfyniadau allan o Whitehall – gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd, datganoli yng Nghymru ac ymddangosiad Meiri dylanwadol – bydd y gwasanaeth praf yn gallu cyfrannu at ddatrys problemau yn lleol ac ymateb i heriau rhanbarthol. Bydd arweinwyr rhanbarthol newydd yn canolbwyntio ar uno rhannau eraill o'r system gyfiawnder ar lefel mwy lleol ac o dan amcanion a rennir. Rydym wedi dylunio'r prosesau cystadlu a chomisiynu i greu mwy o allu i gyd-gomisiynu gwasanaethau, ac i roi cyfleoedd mwy uniongyrchol i sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol cenedlaethol a lleol ddarparu gwasanaethau.

- ▲ **Moderneiddio ystâd a thechnoleg y gwasanaeth praf** fel eu bod yn cefnogi gwaith y gwasanaeth yn well drwy ddarparu'r lle ffitsegol cywir ar gyfer gweithio gydag unigolion neu grwpiau, amgylchedd gwaith o ansawdd uchel ar gyfer y staff a, lle y bo'n bosibl, annog cydweithredu â'r rhai hynny sy'n gweithio gyda'r un unigolion drwy eu cydleoli. Bydd technoleg yn cael ei huwchraddio er mwyn galluogi cofnodi a rhannu gwybodaeth yn well ynghyd



â dadansoddi data yn well er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio effeithiol.

▲ **Galluogi'r staff i fod ar eu gorau.** Mae tystiolaeth sylweddol ynglŷn â lleihau aildroseddu sy'n cadarnhau pwysigrwydd ansawdd y berthynas wyneb yn wyneb sydd wrth galon rheoli dedfrydau. Tra'n bod gweithio yn y gwasanaeth prawf yn cael ei weld yn aml fel galwedigaeth, mae'r swyddogaeth yn parhau i ofyn am fframwaith eglur ar gyfer datblygu proffesiynol ac mae'n haeddu hynny. Mae strategaeth ein gweithlu yn cael ei sbarduno gan y nod o gadw a recriwtio'r bobl orau o gefndiroedd amrywiol, sicrhau bod ein staff â'r gefnogaeth a'r sgiliau y maen nhw eu hangen ynghyd â'u darparu nhw gyda llwybrau gyrfa sy'n werthfawr yn broffesiynol.

Y Camau Nesaf

Mae'r Model Gweithredu Targed Drafft yn disgrifio yn fanylach sut yr ydym yn llunio'r gwasanaeth yn ei gam nesaf. Rydym yn mynd at y diwygiad hwn yn awyddus i ddysgu wrth i ni weithredu, gan ailadrodd ein hymagwedd i gyflawni'r dyluniad gorau er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel.